# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14eg Chwefror 2017 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**1 CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Yr unig addewidion sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 5.

1.3 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tim Rheoli.

1.4 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda perfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PERFFORMIAD

4.1 Mae ***Atodiad 2*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

4.2 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

4.2.1 Nodir bod **Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw (Eiddo1)** wedi parhau yn gyson rhwng 7 ac 8 diwrnod ar gyfer y cyfnodau yn ystod 2016/17 o'i gymharu a 8 diwrnod ar gyfartaledd yn 2015/16 a 9 diwrnod yn 2014/15.

4.2.2 Er mwyn ceisio deall y sefyllfa yn well mae'r Gwasanaeth wedi ceisio adnabod yr achosion sy'n cymryd y mwyaf o amser i ymateb iddynt ac wedi rhoi camau yn eu lle i ymateb. Byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn sefydlu os yw'n gwneud gwahaniaeth i berfformiad.

4.2.3 Mae **Canran bodlonrwydd cwsmeriaid cynnal a chadw dros y 6 mis diwethaf (Eiddo 2)** wedi cynnyddu rhywfaint i 98.47% erbyn diwedd Tachwedd o'i gymharu a 98.09 ar gyfer 2015/16 a 97.5 ar gyfer 2014/15.

4.2.4 Rwy'n hapus iawn hefo perfformiad **Eiddo1** ac **Eiddo2** a chredaf fod y mesurau hyn yn ddigon aeddfed i arbrofi hefo ffyrdd mwy dealladwy o gyflwyno data. O ganlyniad rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graff i'r dyfodol. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys y wybodaeth a gesglir ar gyfer mesur **Eiddo 2** ac o'i gyflwyno ar ffurf graff credaf y byddai'n cyfleu'r stori yn well.

4.2.5 Erbyn hyn rydym wedi cwblhau'r cylch cyntaf o archwiliadau blynyddol i sefydlu'r **Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle(Eiddo 4)** ac o ganlyniad mae'r perfformiad yn 90.1% o'i gymharu a 75% a 70% yn y ddau gyfnod cyntaf o'r flwyddyn a 66% ar gyfer 2015/16. Rwyf wedi derbyn eglurhad am y rhesymau pam nad yw'r perfformiad yn 100% ac wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried sut y gellir ymateb.

4.2.6 Ar hyn o bryd rydym yn adrodd ar y **Canran o apeliadau i'r beirniad anibynol sy'n cael eu caniatáu (Parcio4)** ac ar gyfer y cyfnod diwethaf roedd y perfformiad yn 100% o'i gymharu a 80% yn 2015/16. Gan mai dau apêl oedd wedi ei gyflwyno yn y cyfnod dan sylw rwyf o'r farn y byddai'n well addasu'r mesur i adrodd ar y nifer o apeliadau yn hytrach na chanran i'r dyfodol ac rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth wneud hynny.

4.3 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y

cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei darparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau.

4.3.1 Nodir bod y **Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon a'r lefel gwasanaeth (GyC02)** ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn 95% o'i gymharu a 99% yn 2015/16 a 97% yn 2014/15. Rwyf wedi gofyn am wybodaeth bellach ynghylch y rhesymau nad oedd cwsmeriaid yn fodlon a byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

4.3.2 Mae'r cynnydd yn erbyn y mesur **Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awy sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn (GyC07)** rhywfaint yn is na'r arfer ar 43% (diwedd Tachwedd) o'i gymharu a 63% ar gyfer y cyfnod i ddiwedd Rhagfyr yn 2015/16 oherwydd salwch yn yr Uned. Er rhagwelir y byddwn wedi cwblhau'r arolygiadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol a byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

4.3.3 Mae **Canran y sefydliadau bwyd yn cydymffurfio'n fras a safonau hylendid bwyd (sydd gyfystyr a sgôr o 3 neu fwy) (PAM9)** wedi parhau yn gymharol gyson ac ar ddiwedd Tachwedd mae yn 98.41% o'i gymharu a 97.95% yn 2015/16 a 97.2% yn 2014/15.

4.3.4 Er bod perfformiad y mesur **Canran y troseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (GyC24)** o 89% i weld yn gymharol a pherfformiad o 86% yn 2015/16 a 88% yn 2014/15 nid wyf o'r farn ei fod yn cyfleu'r hyn sy'n bwysig i'r dinesydd. O ganlyniad rwyf wedi gofyn iddynt edrych i sefydlu mesur fyddai'n fwy ystyrlon.

4.3.5 Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Uned Safonau Masnach ystyried os oes mesur addas ynghylch yr arian y maent wedi ei arbed i bobl Gwynedd neu'r nifer o achosion o fasnachu anheg sydd wedi eu cofrestru. Byddaf yn eich diweddaru o unrhyw ddatblygiadau yn fy adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.

4.4 Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

4.4.1 Gwelir bod y cyfartaledd cronus ar gyfer y mesur **Pa mor sydyn y mae'r holl geisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (Dyddiau) (PLA004b)** yn 54.38 hyd ddiwedd Tachwedd o'i gymharu a 60 ar gyfer 2015/16. Nodir fodd bynnag fod y perfformiad ar gyfer cyfnod Hydref/Tachwedd yn 64.04 o ganlyniad i 1 cais hanesyddol (dros 3 blynedd) felly gall achosion o'r fath ddylanwadu ar y ffigyrau.

4.4.2 Nodir bod lleihad yn **Pa mor sydyn mae'r holl achosion Gorfodaeth ar gyfartaledd wedi cymryd i'w datrys (Dyddiau) (PLA005)** gyda'r cyfanswm cronus ar gyfer 2016/17 yn 122.2 diwrnod o'i gymharu a 164 diwrnod yn 2015/16. Nid wyf yn sicr os yw'r mesur presennol yn cyfleu'r hyn sy'n bwysig i'r dinesydd a rwyf wedi gofyn iddynt ystyried sut y gellir dangos fod ein gweithgareddau gorfodaeth wedi diogelu pobl.

4.4.3 Mae'r ffigyrau ar gyfer **Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo** ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn 90.85% o'i gymharu a 90.33% yn 2015/16, 93.28% yn 2014/15 a 94.76% yn 2013/14.

4.5 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i drafeilio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.

4.5.1 Nodir bod y **Canran o siwrneai cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon** yn 92% ar gyfer y cyfnod i ddiwedd chwarter 3 o'i gymharu a 78% ar gyfer chwarter dau a 75% ar gyfer y chwarter cyntaf. Roedd y perfformiad cyfartalog ar gyfer 2015/16 yn 80%.

4.5.2 Fel yr adroddias yn fy adroddiad diwethaf roeddwn wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried addasrwydd y mesurau bodlonrwydd gan awgrymu y byddai mesur y nifer o gwynion yn ffordd well o fesur bodlonrwydd hefo'r gwasnaethau.

4.5.3 Mae dau fesur newydd wedi eu datblygu erbyn hyn ac yn ystod y chwarter diwethaf roedd y **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (Cludiant 2)** yn 4 tra'r oedd y **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur** yn 8. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa rwyf wedi gofyn iddynt restru'r cwynion ac amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd mewn ymateb wrth adrodd yn y dyfodol.

4.5.4 Er bod perfformiad y mesurau bodlonrwydd **(Traffig01, GStryd01, DFF1 a C&G02)** yn dangos lefelau bodlonrwydd o 100% rwy'n cwestiynu os ydym yn berffaith mewn gwirionedd ac o ganlyniad efallai bod angen edrych ar y cwestiynau a ofynnir.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 O ran cynlluniau 2016/17, mae 87% o gynlluniau arbedion y flwyddyn bellach wedi eu gwireddu, a 4% ar y trywydd cywir sy'n awgrymu y bydd o leiaf 91% o'r arbedion wedi eu gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhagwelir llithriad bach efo dau gynllun sydd ar ôl ond lle mae angen ychydig o waith i'w symud ymlaen.

5.2 Yn fy adroddiadau blaenorol rwyf wedi nodi pryder ynghylch y gallu i wireddu rhai o'r cynlluniau. Mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar gynigion amgen er gwireddu'r diffyg, a'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo nifer o'r cynigion hyn ar 13 Rhagfyr 2016. Bellach, mae'r diffyg wedi gostwng i £20k, i'w wireddu yn 2017/18, ac rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar sut y gellir cau'r bwlch.

5.3 Ar hyn o bryd, mae 91% o arbedion 2017/18 unai wedi eu gwireddu neu ar y trywydd cywir.

5.4 Er bod rhywfaint o waith pellach sydd angen sylw rwyf o'r farn fod yr Adran yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu eu cynlluniau arbedion.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn canolbwyntio ar fesurau perfformiad y gwasanaethau y mae'r Aelod Cabinet yn gyfrifol amdanynt ac mae'n dda gweld tystiolaeth o reolaeth byw o'r sefyllfa gyda'r wybodaeth y mae'r

mesurau hynny yn cynnig a gwelliannau cyson yn cael eu cynnig i beth sydd yn cael ei fesur a sut yr adroddir arnynt.

O ran y Gwasanaeth Cynllunio, deallaf bod Ymchwiliad Craffu yn edrych ar y trefniadau cynllunio ar hyn o bryd a bydd yn ddiddorol gweld a yw hynny, maes o law, yn awgrymu rhai gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae'r adroddiad yn adrodd ar sut y bwriedir cau'r bwlch bychan o ran arbedion a oedd i'w gwireddu yn ystod 2016/17 ac mae'n ymddangos bod sefyllfa debygol 2017/18 o ran gwireddu yn fwy cadarnhaol.

**ii. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwdau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**
Gallaf gadarnhau cywirdeb yr adroddiad, gan fod cynnydd adeiladol wedi cael ei wneud gan yr Adran i ddarganfod a gweithredu'r arbedion. Rwyf yn fodlon fod camau pellach ar waith i gau'r diffyg sydd ar ôl ar gyfer 2017/18.

**7.2 Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Enghraifft o Fesurau Cynnal a Chadw
**Atodiad 2 –** Mesurau Perfformiad